**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Mai 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Mai 2024 |

**PWNC**

Eitem 6: ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2023/24

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr adroddiad a chynnigwyd sylwadau ac awgrymiadau perthnasol am berfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion yn briodol ac yn amserol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaethau gan amlygu llwyddiannau, sialensau a datblygiadau. Hynny er mwyn sicrhau bod y Cabinet yn fodlon gyda'r perfformiad dros y cyfnodau dan sylw.

Cyflwynir dadansoddiad o ddata meintiol ac ansoddol, sy'n fesur o berfformiad y Cyngor yn y cyd-destun hwn am y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024 ynghyd â gwybodaeth gymharol am y blynyddoedd blaenorol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Mai 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Mai 2024 |

**PWNC**

Eitem 7: CYFRIFON TERFYNOL 2023/24 – ALLDRO REFENIW

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad ac ystyriwyd y sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2023/24:

| | Colofn A | Colofn B | Colofn C | Colofn Ch |
|---|---|---|---|---|
| | Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24 | Addasiadau a Argymhellir | | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2023/24 |
| | £ '000 | £'000 | £'000 | £ '000 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 3,906 | (3,806) | 0 | 100 |
| Plant a Theuluoedd | 2,611 | (2,511) | 0 | 100 |
| Addysg | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 308 | 0 | (308) | 0 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 687 | (587) | 0 | 100 |
| Amgylchedd | 1,237 | (1,137) | 0 | 100 |
| Tai ac Eiddo | 255 | (155) | 0 | 100 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (11) | 0 | 0 | (11) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (10) | 0 | 0 | (10) |
| Cyllid | (7) | 0 | 0 | (7) |

Nodwyd bod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, Adran Amgylchedd a'r Adran Tai ac Eiddo eleni (Gweler colofn A yn y tabl uchod). Cymeradwyo'r trosglwyddiadau

ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn Atodiad 2):

Yr adrannau sydd yn gorwario i dderbyn cymorth ariannol un tro gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k (Gweler colofn B yn y tabl uchod).

Cadarnhawyd darparu cymorth ariannol o £308k uwchlaw'r taliad cytundebol i Gwmni Byw'n Iach (Gweler colofn C yn y tabl uchod).

Ar gyllidebau Corfforaethol:

- Defnyddio'r balans o £4,402k sydd ar ôl yn y Gronfa Covid i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2023/24.
- Defnyddio (£2,091k) o'r tanwariant ar gyllidebau Corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2023/24.
- Gweddill y tanwariant (£495k) ar gyllidebau Corfforaethol i'w drosglwyddo i'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol.

Cymeradwywyd symiau i'w cario ymlaen (y golofn 'Gor/(Tan) Wariant Addasedig' yn colofn CH uchod ac yn Atodiad 1.

Cymeradwywyd trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd:

- Cynaeafu (£1,703k) o gronfeydd a'i ddefnyddio yn ei gyfanrwydd i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2023/24.
- Defnyddio £2,975k i gyllido bidiau un tro 2024/25 yn dilyn dad ymrwymo £1,113k o'r Gronfa Trawsffurfio a throsglwyddo £1,862k o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2023/24 sydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Mai 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Mai 2024 |

**PWNC**

Eitem 8: RHAGLEN GYFALAF 2023/24 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2024)

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2024) o'r rhaglen gyfalaf.

Cymeradwywyd ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad, sef:

- Cynnydd o £2,189,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- Cynnydd o £132,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- Cynnydd o £645,00 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Cynnydd o £87,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yn cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyawth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

Argymhelliwyd gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2023/24 – 2025/26.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
## CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Mai 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Mai 2024 |

**PWNC**

Eitem 9: CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2025-26 – 2027/28.

Comisiynu'r Prif Weithredwr i sefydlu ac arwain ar ystod o fesurau a phecynnau gwaith, fel amlinellir yn rhan 4.6 o'r adroddiad, i ragbaratoi ar gyfer cyfarch y bwlch sylweddol yn ein cyllideb dros y tair mlynedd nesaf.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gosod allan y rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2025.

Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf sydd ar gael am y newid yn yr incwm fydd y Cyngor yn ei dderbyn dros y cyfnod (drwy Grant y Llywodraeth a Treth Cyngor), a'r gofynion gwariant ychwanegol dros yr un cyfnod.

Bydd mabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan y Cabinet yn caniatáu i'r Cyngor ystyried y gwaith sydd ei angen er mwyn creu cynlluniau manwl i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol sy'n cael ei ragweld ar gyfer 2025/26 – 2027/28, ac i lywio'r gwaith sydd ei angen.

Ni ddisgwylir i'r Cyngor gael gwybod beth fydd Grant y Llywodraeth ar gyfer 2025/26 tan o leiaf fis Rhagfyr 2024, ond gyda'r rhagolygon na fydd y setliad ariannol yn cynyddu, mae risg sylweddol o ansefydlogrwydd ariannol difrifol o beidio cymryd camau cynnar a phendant i ystyried y sefyllfa ac chymryd camau adfer.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Mai 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Mai 2024 |

**PWNC**

Eitem 10: TROSGLWYDDIAD ARIANNOL AR GYFER CYNLLUN CARTREFI GRŴP BYCHAN

**PENDERFYNIAD**

Awdurdodwyd trosglwyddiad ariannol parhaol o £454,580 o gyllideb lleoliadau preswyl allsirol ar gyfer cyllido darpariaeth mewnol fel rhan o ddatblygu cynllun Cartrefi Grŵp Bychain.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gweithdrefnau ariannol y Cyngor yn caniatáu trosglwyddiad arian rhwng penawdau yng nghyllideb adran. Mae angen caniatâd y Cabinet ar gyfer trosglwyddo swm uwch na £200,000.

Ar gyfer cofrestriad y cartref gyda CJW mae angen hysbysebu swyddi parhaol, ac i wneud hynny mae angen cyllid parhaol i'w gosod ar y strwythur. Noder na fydd gwariant yn llawn ar y gyllideb eleni gan fod arian grant o £255,000 wedi ei sicrhau drwy'r Gronfa Integredig Rhanbarthol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 14 Mai 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Mai 2024 |

## PWNC

Eitem 11: ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS TAI AC EIDDO

## PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi’r wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae’n gyfrifol amdano i’r Cabinet yn gyfnodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Mai 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Mai 2024 |

**PWNC**

Eitem 12: BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd Blaenraglen waith y Cabinet ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir rhwng 14 Mai 2024 a 5 Tachwedd 2024.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 14 Mai 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Mai 2024 |

**PWNC**

Eitem 14: HUNANIAITH: MENTER IAITH GWYNEDD

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd bod Menter Iaith Gwynedd Cyf yn cyflwyno cais grant Hybu a Hyrwyddo’r Gymraeg ar gyfer 2025/26, yn hytrach na Chyngor Gwynedd a throsglwyddo staff presennol i weithio i Fenter Iaith Gwynedd ar 1 Ebrill 2025.

Dirprwywyd yr hawl i’r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol mewn ymgynghoriad â’r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a’r Pennaeth Cyllid i gytuno ar amodau a chwblhau cytundeb gyda Menter Iaith Gwynedd Cyf yn unol â’r adroddiad ac yn darparu’r indemniadau a nodwyd ym mharagraff 3.4.6 o’r adroddiad ar gyfer costau staff.

Darparwyd grant o £61,000 i Fenter Iaith Gwynedd ar gyfer gwireddu rhai elfennau o strategaeth iaith Cyngor Gwynedd a chyfrannu tuag at gostau staff 2025-2026.

Cytunwyd i ddarparu gwarant ar gyfer Cytundeb Mynediad i Gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer Menter Iaith Gwynedd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Menter Iaith Gwynedd Cyf wedi'i sefydlu er mwyn ysgwyddo rôl Hunaniaith a derbyn grant Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg gan Lywodraeth Cymru o 1 Ebrill 2025 ymlaen.

Mae angen penderfyniad gan y Cabinet i gytuno ar hyn.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais o sicrhau fod Menter Iaith Gynedd yn ginaliadwy ac yn annibynnol ac wedi ei gwreiddio yn y gymuned, mae angen gwneud darpariaethau ariannol ar gyfer cefnogi gallu Menter Iaith Gwynedd Cyf i gynnal amodau gwaith staff a fydd yn trosglwyddo i'r cwmni.

Heb yr ymrwymiad hwnnw, ni fydd modd parhau gyda'r prosiect yn ei ffurf bresennol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.